

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 9fed 2021 drwy gyfrwng Zoom. Yn bresennol oedd Euros Puw (is-gadeirydd), Gwynedd Jones, Arwel Davies, Geraint Davies a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Huw Charles, Jean Roberts, Rhys Richards a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Tai mewn peryg o gael llifogydd ym mhentref Parc - cafwyd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd fod y ffosydd o Benbryn Coch i'r pentref wedi cael ei glanhau ac roeddynt yn gobeithio y byddai hyn yn lleihau'r dŵr a oedd yn dod i lawr y rhiw o gyfeiriad yr hen loches bws. Mi fyddai'r Arolygwr Priffyrdd yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa.

ii) Cyfyngiad cyflymder yn Llanycil

Derbyniwyd diweddariad ar yr ymgyrch i geisio cael cyfyngiad cyflymder i Lanycil. Derbyniwyd cais gan y Cyngor Tref i anfon at y Gweinidog Ken Skates i ofyn am ei gefnogaeth i'r cyfyngiad.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol

i) Cylch yr Iaith - derbyniwyd copi o'r ddogfen ynglŷn â Chyflogaeth a Thwristiaeth yng Nghymru.

ii) Archwilio Cymru - derbyniwyd gwybodaeth am y drefn archwilio newydd a fyddai'n rhedeg mewn cylch o 3 mlynedd. Roedd yn nodi pa flwyddyn bydd cynghorau'n derbyn yr archwiliad sy'n seiliedig ar drafodion, a'r ddwy flynedd y bydd y gweithdrefnau archwilio sylfaenol yn cael eu defnyddio.

v) Ceisiadau Cynllunio.

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.

vi) Materion Ariannol

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

b) Partneriaeth Penllyn.

Derbyniwyd neges yn egluro na fyddant yn gofyn am y cyfraniad ariannol arferol eleni oherwydd amgylchiadau'r flwyddyn ddiwethaf.

c) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Swyddfa Archwilio (Archwiliad Allanol) a chadarnhau'r taliad a wnaed ym mis Rhagfyr i JT Morris (trwsio gwydr lloches bws Rhyduchaf).

ch) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Theatr Bara Caws, Dawns i Bawb, CFFI Meirionnydd, Radio Ysbyty Gwynedd ac Ambiwylans Awyr Cymru, Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

vii) Unrhyw Fater Arall.

a) Trwsio gwydr lloches bws Rhyduchaf.

Yn dilyn cwyn ym mis Rhagfyr fod ffenest wedi malu yn y lloches, roedd y clerc wedi trefnu iddo gael ei drwsio yn syth.

b) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

- i) Gwter Fedw Arian, Rhyduchaf - roedd y gwter yn achosi problemau i'r tîrfeddiannwr eto eleni, gyda'r holl ddŵr yn gwneud difrod i'r cae.
- ii) Ffos rhwng Ffridd Isa a chroesffordd Pentre - roedd y cynghorwyr yn bryderus y gallai gyrwyr fynd fewn i'r ffos wrth dynnu fyny i adael cerbyd arall basio. Cytunwyd i ofyn a oedd posib i'r gweithlu osod polion i rybuddio/rwystro cerbydau fynd rhy agos.
- iii) Ffordd o gyffordd Ffrydan i Lidiardau – angen llenwi tyllau oedd wedi ymddangos yn y ffordd
- iv) Nodol, Arenig - dwr yn dod i lawr o'r Nodol ac yn hel ar y ffordd rhwng y ddau cattle grid.

c) Meddygfa'r Bala.

Gofynnwyd i'r clerc anfon nodyn o ddiolch i staff y feddygfa am yr holl waith maent wedi ei wneud i ddiogelu'r gymuned dros y flwyddyn heriol ddiwethaf. Roedd canmoliaeth hefyd i'w ymroddiad i sicrhau fod y trigolion yn derbyn y brechiad Covid.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 9fed am 8.00 y.h. drwy gyfrwng “Zoom”.